Gweithdy Rhieni / Gofalwyr

# Ysgol Cynwyd Sant



# Gweithio mewn Partneriaeth Ysgol a Theulu

# Beth mae'r Côd ADY yn ei ddweud am rieni a gofalwyr...

- Mae gan rieni wybodaeth allweddol ac mae ganddynt rôl hollbwysig yn addysg eu plentyn.
- Mae ganddynt gryfderau, gwybodaeth a phrofiad unigryw i gyfrannu at edrych ar anghenion ar y cyd, a'r ffordd orau o'i gynorthwyo.
- Ni ddylai fod yna ragdybiaeth am yr hyn y mae rhieni'n gallu neu ddim yn gallu ei wneud i gefnogi dysgu'r plentyn.
- Mae gan bob rhiant hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn, a dylid mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys rhieni.

**Yn gryno, mae teuluoedd yn hanfodol o ran helpu'r ysgol i wneud penderfyniadau am y cymorth sydd ei angen ar blentyn.**

# Beth y gall teulu ei ddisgwyl gan eu hysgol a'u hawdurdod lleol….

Cyfarfodydd croesawgar a chefnogol ar amser ac mewn lle sy'n gweddu i'ch anghenion


Caiff eich llais ei glywed a chaiff eich gwybodaeth ei chynnwys ym mhob cam

Cymorth ychwanegol i'ch helpu i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch


Anfonir adroddiadau atoch cyn cyfarfodydd fel bod gennych amser i'w darllen

Gwybodaeth hygyrch a chyfoes gan eich awdurdod lleol

Cymorth gan rywun annibynnol os nad ydych yn hapus ag unrhyw benderfyniadau neu'r ffordd y mae rhywbeth wedi cael ei wneud



## Beth yw'r rhwystrau posibl y gallech chi eu hwynebu fel rhiant / gofalwr yn y broses hon?



- Deall jargon penodol yn ymwneud ag addysg / iechyd, gan gynnwys byrfoddau
- Gan amlaf, hwn fydd y tro cyntaf i chi fynd trwy'r broses, sy'n golygu eich bod yn dysgu am y broses wrth fynd yn eich blaen
- Weithiau, mae llawer o weithwyr proffesiynol neu asiantaethau'n gysylltiedig, a gall hyn achosi i chi deimlo dan straen


Mae'r siart llif hon yn amlinellu'r broses y bydd ysgol yn mynd trwyddi i wneud adolygiad neu benderfyniad ynghylch a oes gan ddisgybl ADY.

Fel rhiant / gofalwr, rhaid i'r ysgol ofyn i chi am eich barn wrth wneud / adolygu penderfyniad am ADY.

Mae gennych hawl i gael cymorth ychwanegol bob amser, fel eich bod chi a'ch plentyn yn teimlo'n rhan lawn o'r broses hon.

**DECISION ON ADDITIONAL LEARNING NEEDS**


**When it is brought to the attention of, or otherwise appears to a maintained school, that a pupil may have ALN and does not have an IDP, the following process must be followed** (Different arrangements apply if student is dual registered, looked after, detained, an English resident or an EHC plan is being maintained):



Os bydd yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn penderfynu **nad oes** gan eich plentyn ADY, efallai y byddwch yn anghytuno neu'n anfodlon â'r penderfyniad hwn. Mae'r siart llif hon yn dangos beth mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei wneud i sicrhau y gwrandewir arnoch.

Bydd eich unigolyn cyswllt yn eich cefnogi trwy unrhyw achos o anghytuno fel eich bod yn cael eich hysbysu, eich cefnogi, a bod pobl yn gwrando arnoch.

Os gofynnwch, bydd eich Awdurdod Lleol yn trefnu i chi gael mynediad at **wasanaeth eirioli annibynnol** os byddwch yn teimlo bod angen i chi gael cymorth gan rywun y tu allan i'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol.



# Cwestiynau a thrafodaeth

## Beth allwch chi ei wneud nesaf?

Cysylltwch â’ch Cydlynydd ADY i gael gwybodaeth am unrhyw un o’r canlynol:



- I adolygu’r cynnydd hyd yma fel eich bod yn teimlo’ch bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth
- I ofyn am gymorth ychwanegol i helpu i chi gymr rhan yn llawn yn y broses
- I gael gwybodaeth am ddefnyddio rhwydwaith cymorth i rieni neu wasanaethau eirioli annibynnol gan yr Awdurdod Lleol.